# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 5

RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O’R CORFF

*Troseddau sy’n gysylltiedig â rhoi twll mewn rhan bersonol o’r corff*

### 96 Beth yw rhoi twll mewn rhan bersonol o’r corff?

(1) At ddibenion adran 95, rhoi twll mewn rhan bersonol o’r corff yw tyllu’r corff mewn rhan bersonol a restrir yn is-adran (2), pan fo’n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol.

(2) Y rhannau personol o’r corff yw—

(a) yr anws;
(b) y fron (gan gynnwys y deth a’r areola);
(c) y ffolen;
(d) rhych y pen ôl;
(e) y pidyn (gan gynnwys y blaengroen);
(f) y perinëwm;
(g) y mons pubis;
(h) y ceillgwd;
(i) y tafod;
(j) y fwlfa.

(3) Yn yr adran hon, mae i “tyllu’r corff” yr ystyr a roddir yn adran 94.

(4) At ddibenion yr adran hon, mae triniaeth feddygol yn driniaeth a gyflawnir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestredig neu fydwraig gofrestredig, at ddibenion y canlynol, neu mewn cysylltiad â’r canlynol—

(a) diagnosio, atal, monitro, trin neu liniaru clefyd, afiechyd, anabledd, neu annormaledd corfforol neu feddyliol arall, neu
(b) atal cenhedlu.